O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 942 (Cy. 122)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed *23 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaharddiad" ("*prohibition period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Porthmadog), sy'n ymestyn o Gylchfan Porthmadog i Gylchfan Minffordd yn Sir Gwynedd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.